# ACT PUMP
# CYFIAWNDER A RHEOLAU

## A fyddai anhrefn heb reolau?



© RSC. Llun gan Peter Coombs.

**Amcanion**
Archwilio pam mae angen rheolau, cyfreithiau a chyfiawnder da arnom er mwyn sicrhau trefn mewn cymdeithas, ac archwilio'r defnydd o fesur diodl/y mesur pumban yn nramâu Shakespeare.

**Cysylltiadau â'r cwricwlwm**
Saesneg, Drama, Hanes, Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd, Dinasyddiaeth.

**Sgiliau a rhagolygon dinasyddiaeth**
Cyfathrebu, cydweithio, meddwl yn greadigol ac yn feirniadol.

**Adnoddau angenrheidiol**
Mynediad i'r rhyngrwyd, darnau o'r ddrama, deunyddiau celf.

## FFOCWS DYSGU

Pwysigrwydd rheolau a chyfrifoldebau. Mesur diodl a'r mesur pumban.

## CYFLWYNIAD

Mae rheolau, cyfiawnder a thrugaredd yn themâu cyson yn nramâu Shakespeare. Mae gan fyd y tylwyth teg yn **A Midsummer Night's Dream** reolau, hyd yn oed. Sut le fyddai cymdeithas heb reolau?

### ? CWESTIYNAU ALLWEDDOL

**Beth allai ddigwydd yn eich ysgol pe na bai rheolau i'w dilyn?**

**Pwy, yn eich barn chi, ddylai greu'r rheolau hyn?**



© RSC. Llun gan Rob Freeman.

## GWEITHGAREDD CYNHESU

- Dewiswch un gwirfoddolwr i sefyll i ffwrdd oddi wrth weddill y grŵp a gofynnwch i'r disgyblion eraill ffurfio rhes y tu ôl iddo, ar ochr arall yr ystafell.
- Gofynnwch i'r disgyblion sleifio y tu ôl i'r gwirfoddolwr, gan wneud cyn lleied o sŵn â phosibl, gyda'r nod o groesi'r ystafell a chyrraedd y gwirfoddolwr.
- Os bydd y gwirfoddolwr yn clywed unrhyw sŵn, dylai droi o gwmpas. Bydd yn rhaid i unrhyw un a gaiff ei ddal adael y gêm ac eistedd i lawr.
- Cyflwynwch syniad newydd, sef y tro hwn, os caiff unrhyw un ei ddal, bydd angen i bawb fynd yn ôl i'r dechrau eto. Y disgybl cyntaf i gyrraedd y gwirfoddolwr fydd yr enillydd.
- Myfyriwch gyda'r disgyblion ar sut roedd yn teimlo i gael eu dyfarnu 'allan' o'r gêm o dan y rheol newydd. A oedd hyn yn deg?
- Dewiswch ddau neu dri disgybl i gamu allan o'r gêm a dod yn bobl sy'n llunio rheolau. Gofynnwch iddynt greu rheol newydd bob tro y bydd rhywun yn cael ei ddal allan, naill ai ar gyfer yr unigolyn hwnnw neu weddill y disgyblion.
- Trafodwch â'r disgyblion, ar ôl chwarae gyda'r rheolau newydd, p'un a oedd hyn yn teimlo fel system gyfiawn. Beth nad oeddent yn cytuno ag ef? Beth oedd yn gweithio yn y system honno? Er enghraifft, gallant ddweud ei bod yn beth da bod y llunwyr rheolau newydd wedi profi sut beth oedd bod yn rhan o'r gêm. A yw'r ffaith eu bod wedi cael eu tynnu o'r gêm yn effeithio ar y rheolau y gwnaethant eu llunio?

Gall y gweithgaredd hwn fod yn ffordd ddiddorol o annog disgyblion i feddwl am gyfiawnder a chanlyniadau, a hefyd pwy ddylai lunio cyfreithiau a rheolau. Petaech am gyflwyno'r ddrama neu'r dramâu rydych yn eu hastudio ar y pwynt hwn, gallech addasu'r gweithgaredd i gynnwys canlyniadau o'r testun.

# ARCHWILIO THEMÂU, SGILIAU A GWERTHOEDD DINASYDDIAETH

## ? CWESTIYNAU ALLWEDDOL

### A yw'n iawn torri rhai rheolau?

Gofynnwch i'ch disgyblion sut y gallant ddweud p'un a yw rheol wedi'i chreu am reswm da ai peidio. Rhowch enghraifft o reol dda a rheol wael. Er enghraifft, 'mae bechgyn yn cael mynd i ginio yn gyntaf.' A yw hon yn rheol wael? Pam?

A ydych erioed wedi bod mewn sefyllfa lle rydych yn cael eich temtio i dorri rheol a gwneud rhywbeth rydych yn gwybod sy'n anghywir, am fod arnoch wir eisiau rhywbeth? Rhowch gyfres o gyfyng-gyngor moesol i'ch disgyblion sy'n gysylltiedig â chymeriadau'n 'torri'r rheolau' yn nramâu Shakespeare. Er enghraifft:

– Beth fyddech yn ei wneud er mwyn cael rhywbeth rydych wir am ei gael? (**Macbeth, Measure for Measure**).

– A ellir byth gyfiawnhau ceisio dial? (**Hamlet** a **The Merchant of Venice**).

– A ellir byth gyfiawnhau disodli arweinydd gwlad drwy rym? (**Julius Caesar**).

– A ddylech fyth dwyllo rhywun i gael yr hyn y mae arnoch ei eisiau? (**A Midsummer Night's Dream, Twelfth Night**, **All's Well That Ends Well**).

Darllenwch **Macbeth, Act 2 Golygfa 3** yn uchel ar y cyd â'r dosbarth. Yma, mae Lennox yn disgrifio'r tywydd ar y noson y caiff y Brenin Duncan ei lofruddio gan Macbeth. Yng nghyfnod Shakespeare, roedd pobl yn credu bod y brenin wedi cael ei ddewis gan Dduw, felly roedd lladd brenin yn bechod ofnadwy a fyddai'n tarfu ar drefn y byd i gyd. Sut mae araith Lennox yn awgrymu bod Macbeth wedi achosi anhrefn drwy dorri'r rheolau?

Gofynnwch i'ch dosbarth ddewis cymeriad sydd wedi torri rheol yn un o ddramâu Shakespeare. Cynhaliwch achos llys ffug yn eich dosbarth a rhowch fyfyriwr o flaen ei well yn rôl cymeriad o'i ddewis. Gofynnwch iddo amddiffyn ei benderfyniadau a'i weithredoedd yn y ddrama. Wedyn, gofynnwch i'r dosbarth bleidleisio dros b'un a yw wedi cyfiawnhau torri'r rheolau. Sicrhewch eich bod yn cynnwys y dosbarth cyfan, er enghraifft, gallai rhai ohonynt chwarae rôl y rheithgor neu dystion i gymeriad.



© RSC. Llun gan Rob Freeman.

## ARCHWILIO DADLEUON

**I gael rhagor o esboniad ynghylch sut i edrych ar gyfiawnder ac Addasu i Gyd-destun, gan ddefnyddio'r enghraifft o Julius Caesar, trowch i dudalen 61. Gellir defnyddio hyn gydag unrhyw destun.**


© RSC. Llun gan Rob Freeman.

## DADANSODDI MANWL – Y MESUR PUMBAN DIODL

Ysgrifennai Shakespeare ar fesur diodl, mesur odlog, neu ryddiaith. Mae mesur diodl, neu'r mesur pumban diodl, yn cynnwys pum curiad deusill, gydag un sillaf yn acennog a'r llall yn ddiacen, ac mae'n rhoi rhythm i lawer o'r llinellau yn nramâu Shakespeare.

Ewch ati i ymarfer rhythmau galw ac ateb drwy glapio'u dwylo a stampio'u traed ar y llawr, er enghraifft, 'stamp clap stamp clap stamp clap stamp clap' i guriad rheolaidd. Newidiwch arweinydd y grŵp a'r rhythm sawl gwaith. Wedyn, anogwch y disgyblion i glapio a stampio i rythm mesur diodl: Di Dym Di Dym Di Dym Di Dym Di Dym (deg curiad). Esboniwch i'r disgyblion mai'r enw ar y math hwn o ysgrifennu yw'r mesur pumban, ei fod yn cynnwys cyfanswm o ddeg sillaf mewn llinell, a'i fod yn rhythm ac yn ffordd o siarad. Caiff y rhythm sy'n sail i'r geiriau ei ddisgrifio'n aml fel 'curiad calon', gyda phum sillaf acennog a phum sillaf ddiacen.

Gofynnwch i'r disgyblion roi eu dwylo dros eu calonnau a tharo pum curiad calon yn ysgafn fel grŵp. Mae enghraifft o hyn i'w gweld yn fideo RSC ar addysgu'r mesur pumban yn: **www.youtube.com/watch?v=0Qv-sjQHgZ8**

Parhewch â'r rhythm wrth i chi ddarllen enghreifftiau byr o areithiau enwog gan Shakespeare, er enghraifft: Araith enwog Portia am rinwedd trugaredd yn **The Merchant of Venice**, **Act 4 Golygfa 1**:

**The quality of mercy is not strained It droppeth as the gentle rain from heaven**

Neu'r **Rhagymadrodd** o **Romeo and Juliet**:

**Two households, both alike in dignity,**
**In fair Verona, where we lay our scene**

Sylwch pa eiriau yn benodol sy'n acennog a thrafodwch effaith y rhythm ar ystyr y geiriau a'r ddrama rydych yn ei hastudio.

# CYMHWYSO EICH DYSGU – GWEITHGAREDDAU TRAWSGWRICWLAIDD




Mae darn o waith celf gan Hew Locke o'r enw **Jurors** wedi'i leoli yn Runnymede yn Surrey, lle cafodd y Magna Carta ei lofnodi. Mae'n cynnwys 12 o gadeiriau sydd â symbolau cyfiawnder traddodiadol a modern o bob rhan o'r byd wedi'u cerfio arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys delweddau o allweddi a chloriannau, yn ogystal â llun o ddosbarth o blant yn dysgu am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a Cornelia Sorabji, sef cyfreithwraig gyntaf India. Edrychwch ar luniau o rai o'r cadeiriau hyn a gofynnwch i'r dosbarth weithio mewn grwpiau i ddysgu mwy am yr ymdrechion dros gyfiawnder sydd i'w gweld.

Gofynnwch i'r dosbarth weithio mewn grwpiau a dylunio eu 'cadeiriau rheithwyr' eu hunain – pa ddelweddau, symbolau a dyfyniadau a fyddent yn eu cynnwys??

Mae ffilm sy'n cynnwys rhagor o fanylion am sut y cafodd y gwaith celf ei greu ar gael yn: **https://www.youtube.com/watch?v=yD12u-ehyvE**

# AC I GLOI…

Gofynnwch i'r dosbarth ystyried y cwestiwn unwaith eto: Yn eich barn chi, a fyddai anhrefn heb reolau? Beth maen nhw'n ei feddwl?

Pam mae'n arbennig o bwysig cael rheolau yn yr ysgol? Edrychwch eto ar eich rheolau dosbarth a rheolau'r ysgol. A ydynt yn rheolau 'da' yn eich barn chi? Pwy sy'n penderfynu arnynt?

Gofynnwch i'r dosbarth gytuno ar y pum rheol orau i wneud eich ysgol neu'ch dosbarth yn lle hapus a diogel.



© RSC. Llun gan Hugo Glendinning.

# GWEITHGAREDDAU YSGOL BARTNER

– Trafod canlyniadau'r achosion llys yn y ddwy ysgol.

– Cyfnewid ffilmiau o'ch achosion llys a ffotograffau o'ch dyluniadau o gadeiriau gyda'ch ysgol bartner.

– Cymharu eich pum rheol ysgol orau.

## GEIRFA

**Y mesur pumban**: Y mesur rhythm a ddefnyddir amlaf yn nramâu Shakespeare. Mae'n cynnwys pum curiad iambig. Mae pob curiad yn cynnwys un sillaf ddiacen, a sillaf acennog yn ei dilyn, gan greu'r rhythm - di DYM, di DYM, di DYM, di DYM, di DYM.

ADNODDAU YCHWANEGOL

# Macbeth
# Act 2 Golygfa 3

**Lennox** The night has been **unruly**. Where we lay,
Our chimneys were blown down, and, as they say,
**Lamentings** heard i' the air; strange screams of death,
And **prophesying** with **accents terrible**
Of **dire combustion** and confused **events**
**New hatched to** th' woeful time: the **obscure bird**
Clamoured the **livelong** night. Some say, the earth
Was feverous and did shake.



© RSC. Llun gan Ellie Kurttz.

## ! TROSOLWG

**Yn Macbeth, Act 2 Golygfa 3, mae Lennox a Macduff – sydd ill dau yn Frehyrion yn llys y Brenin Duncan – ar y ffordd i weld y Brenin pan mae Macbeth yn eu stopio. Yn nes ymlaen, deuir o hyd i'r brenin yn farw.**

## NODIADAU

**unruly**: afreolus, cythryblus

**lamentings**: llefau galarus

**prophesying**: darogan/pregethu/dweud rhywbeth yn ddifrifol

**accents terrible**: ymadroddion brawychus

**dire combustion**: dryswch ofnadwy/ cynnwrf peryglus

**events**: canlyniadau

**new hatched to**: newydd-anedig fel epil i

**obscure bird**: y dylluan, aderyn y tywyllwch

**livelong**: hirhoedlog

# The Merchant of Venice
# Act 4 Golygfa 1

## ! TROSOLWG

**Yn The Merchant of Venice, Act 4 Golygfa 1, mae Portia, sydd wedi gwisgo fel cyfreithiwr o'r enw Balthazar, yn amddiffyn Antonio gerbron y llys, yn erbyn cyfiawnder Shylock.**

**Portia** The quality of mercy is not **strained**,
It droppeth as the gentle rain from heaven
Upon the place beneath. It is **twice blest**;
It blesseth him that gives and him that takes.
'Tis mightiest in the mightiest, it becomes
The throned monarch better than his crown.
His sceptre **shows** the force of temporal power,
The attribute to awe and majesty,
Wherein doth sit the **dread** and fear of kings.
But mercy is above this **sceptred sway**,
It is enthroned in the hearts of kings,
It is an attribute to God himself;
And earthly power doth then show **likest** God's
When mercy **seasons justice**.

## NODIADAU

**strained**: annaturiol, ffug; hefyd efallai wedi'i hidlo/wedi'i ddistyllu (er mwyn creu delweddau sy'n ymwneud â glaw)

**twice blest**: rhoi dwy fendith

**shows:** cynrychioli

**dread**: parch

**sceptred sway**: llywodraeth frenhinol

**likest**: yn fwyaf tebyg i

**seasons**: addasu

**justice**: cyfiawnder Duw (os nad oedd yn dangos trugaredd i ddynolryw)

# Romeo and Juliet
# Rhagymadrodd

## ! TROSOLWG

**Mae'r Rhagymadrodd i Romeo and Juliet, yn cyflwyno'r anghydfod rhwng teuluoedd Montague a Capulet a stori'r ddrama.**

**Chorus** Two households, both alike in **dignity**,
In fair **Verona**, where we lay our scene,
From **ancient** grudge break to new **mutiny**,
Where **civil** blood makes civil hands unclean.
From forth the **fatal** loins of these two foes
A pair of **star-crossed** lovers **take their life**,
Whose **misadventured** piteous overthrows;
Do with their death bury their parents' strife.

## NODIADAU

**dignity**: gwerth/statws cymdeithasol

**Verona**: dinas yng ngogledd yr Eidal

**ancient**: hirsefydlog

**mutiny**: anghydfod

**civil**: sy'n perthyn i ddinasyddion (chwarae ar y gair 'civilized')

**fatal**: tyngedfennol/angheuol

**star-crossed**: wedi'u rhwystro gan ffawd (dylanwad difrïol seren neu blaned)

**take their life**: cymryd rhywbeth o'u bywydau (gan chwarae'n sinistr ar y syniad o gyflawni hunanladdiad)

**misadventured**: anffodus